

Bwletin Awdurdod S4C - Rhagfyr 2002

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 29 Tachwedd 2002.

Cyhoeddi Ffigurau Gwyllo

Nawr bod nifer y cartrefi cwbl Gymraeg ar Panel BARB yn cyfateb llawer nes at y sefyllfa demograffeg yng Nghymru, roedd S4C wedi ail-gychwyn rhyddhau'r ffigurau gwyllo ar gyfer yr ugain rhaglen uchaf. Cyhoeddwyd ffigurau gwyllo yn *Y Cymro* ar 22 Tachwedd a byddent yn ymddangos yno'n wythnosol o hyn allan. Byddai'r ffigurau hefyd ar gael ar wefan S4C.

Bwrdd OFCOM

Nodwyd y byddai Cadeirydd newydd OFCOM, yr Arglwydd Currie, a'r Athro Ian Hargreaves yn dod i S4C am gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2002.

Dathliadau 20fed Penblwydd S4C

Cyfeiriwyd at ginio'r RTS y noson gynt. Teimlwyd bod hwn wedi bod yn achlysur llwyddiannus iawn a nodwyd taw dyma oedd yr olaf o'r dathliadau ffurfiol yn ymwneud â phenblwydd S4C. Cyfeiriwyd hefyd at y digwyddiad mwy anffurfiol a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd. Bu hwn yn arbennig o lwyddiannus a chafodd gefnogaeth ardderchog. Wrth ystyried y rhaglen o weithgareddau ar gyfer dathlu penblwydd S4C, llongyfarchodd yr Awdurdod bawb yn y tîm marchnata/wasg oedd wedi gweithio mor galed ar y digwyddiadau ar eu llwyddiant.

Canlyniad Cais S4C i'r DCMS am Arian Ychwanegol

Ystyriwyd adroddiad yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r Aelodau o ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol i gais S4C am arian ychwanegol. Nodwyd bod y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol yn lled awgrymu bod yna arian ychwanegol ar gyfer S4C, ond tra roedd hyn yn dechnegol wir, ni fyddai S4C yn derbyn unrhyw beth heblaw am godiad chwyddiant.

Roedd yr holl Aelodau'n gytûn bod y newyddion yn siomedig tu hwnt. Canlyniad hyn fyddai'r angen i bwysu a mesur yn ofalus cwestiynau sylfaenol ynglyn â'r gallu i barhau gyda unrhyw weithgareddau 'ymylol' S4C (e.e. nawdd a chyfrannu at gyrff allanol) yn ogystal â'r effaith ar y gwasanaeth rhaglenni, wrth ystyried y gyllideb ar gyfer 2003 nes ymlaen yn y cyfarfod hwn.

Roedd nawr angen i'r Awdurdod edrych o'r newydd ar beth oedd y ffordd orau ymlaen a pha ddulliau y dylid mynd ar eu hôl wrth barhau'r ymgyrch ar gyfer ennill mwy o arian i'r Sianel. Yn y cyfamser, byddai S4C yn gwneud datganiad ynglyn â phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a sefyllfa ariannol y Sianel yn ystod y diwrnodau nesaf.

Adolygu Strategaeth

Ystyriwyd y datblygiadau pellach ar weithredu'r strategaeth a gytunwyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf. Yn benodol, ymhelaethwyd ar yr hyn a fwriadwyd ar gyfer yr amserlen newydd yn 2003 ac yn benodol y penderfyniad i symud *Pobol y Cwm* i gorff yr amserlen, h.y. am 8.00, 8.30 neu 9.00 pm yn dibynnu ar y noson. Byddai yna seminar yn cael ei gynnal i gyflenwyr i drafod y broses gomisiynu adolygedig a'r amserlen newydd ar 4 Rhagfyr. Wedi i hwn gael ei gynnal byddai'r wybodaeth ynglyn â'r amserlen newydd yna'n cael ei rhyddhau'n gyhoeddus gan Swyddfa'r Wasg.

Cynllun Corfforaethol 2003-05

Ystyriwyd papur a wnaeth nodi'r amcanion strategol y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried penderfyniadau yn ymwneud â'r gyllideb. Byddai cynllun corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2003-05 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf. Prif fyrddwn y papur oedd tanlinellu pwysigrwydd cadw'r buddsoddiad mewn rhaglenni mor uchel â phosibl.

Cyllideb 2003

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr Aelodau trwy'r gyllideb roedd y Tîm Rheoli yn ei argymhell i'r Awdurdod ar gyfer 2003. Nodwyd yr adrannau lle'r oedd toriadau yn cael eu hargymhell, ac yn benodol, y ffaith y byddai'r gyllideb rhaglenni ryw £1 miliwn yn is yn 2003 nag a fu yn 2002. Cynhaliwyd trafodaeth drylwyr ar yr hyn a argymhellwyd parthed y cyfraniadau at gyrrff allanol. Yna canolbwyntiwyd ar effaith y byddai'r toriad yn y gyllideb rhaglenni yn ei gael ar y gwasanaeth. Byddai amserlen 2003 yn ganlyniad o'r broses gomisiynu presennol. Nodwyd y dylai'r dull newydd o gomisiynu roi mwy o hyblygrwydd i ymestyn neu grebachu yn ôl y gofyn, er dim ond ychydig o ryddid fyddai ar gael i ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn yn ystod y dwy flynedd nesaf.

Yn gyffredinol, nododd yr Aelodau ymgais y swyddogion i geisio gwarchod y gyllideb rhaglenni drwy dorri cymaint ag oedd yn bosibl ar draws yr holl feysydd eraill. Wrth dderbyn argymhellion y swyddogion ar gyfer gyllideb 2003, cytnodd yr Aelodau y dylid llongyfarch y Prif Weithredwr a'i dîm ar y ffordd yr oedd pawb wedi cyfrannu at yr arbedion a thoriadau i gyrraedd at y gyllideb wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Isdeitlo Rhaglenni'r BBC ar S4C
- Adroddiad a Chofnodion y Grwp Cydymffuraieth a gynhaliwyd 15 Tachwedd 2002
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol

Materion Cyfrinachol

Cofnodion Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth – 1 Tachwedd 2002 – Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod.